## Mae gwaith gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ar ymateb yr Awdurdod i bwysau ariannol yn cefnogi fy nghasgliad ar y trefniadau i sicrhau gwasanaethau effeithlon, darbodus ac effeithiol

**28.** Bu Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn cynnal gwaith maes ar gyfer ei hadolygiad, 'Valuing the Police: Preparedness Inspection', ym mis Chwefror 2011 ac aethom gyda'r Arolygiaeth i nifer o gyfarfodydd casglu gwybodaeth. Cyhoeddodd yr Arolygiaeth ei hadroddiad lleol ar sefyllfa'r Awdurdod, ynghyd ag adroddiad thematig cenedlaethol ar sefyllfa holl awdurdodau'r heddlu ledled Cymru a Lloegr, ym mis Gorffennaf 2011.

**29.** Daeth adroddiad lleol Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi i'r casgliadau canlynol:

- Mae'r Awdurdod a'r Heddlu yn deall maint yr her ariannol sy'n eu hwynebu ac maent wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r her honno.
- Mae cynllun ariannol clir sy'n dangos ymagwedd ystyriol at y toriadau ac sy'n rhoi manylion ystod o ostyngiadau cyllideb ac arbedion effeithlonrwydd dros bedair blynedd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant;
- Mae'r hanes o wneud arbedion effeithlonrwydd drwy'r rhaglen 'Aros ar y Blaen' yn golygu bod yr Awdurdod a'r Heddlu mewn lle da i nodi arbedion risg isel pellach;
- Bydd cynlluniau'r Heddlu a'r Awdurdod ar gyfer y gweithlu yn parhau i gael eu mireinio wrth i'r rhaglen newid fynd yn ei blaen;
- Mae ymrwymiad cadarn i ddiogelu plismona gweladwy ar lefel cymdogaeth, gyda lefelau uchel o adnoddau mewn plismona cymdogaeth yn cael eu cynnal ar draws yr Heddlu, law yn llaw â ffocws ar ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed;
- Roedd trefniadau ymgynghori effeithiol ar waith i lywio penderfyniadau dros y pedair blynedd nesaf, gydag ymagwedd ystyriol a bwriadol gynnil at gyfleu canlyniadau'r adolygiad cynhwysfawr o wariant a negeseuon allweddol gyda fforymau a phartneriaid cymunedol
- Mae'r Ysgrifennydd Cartref yn disgwyl i heddluoedd ac awdurdodau wneud toriadau ariannol a lleihau troseddau heb i'r llinell flaen ddioddef ac mae Cynllun Plismona Lleol Gwent yn cynnwys amcanion mewn perthynas â bwrgleriaeth, dwyn metelau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol dros y flwyddyn i ddod.

**30.** Mae gwaith Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn cefnogi fy nghasgliadau ar drefniadau'r Awdurdod i sicrhau gwasanaethau effeithlon, darbodus ac effeithiol. Yn benodol, mae'n cadarnhau bod yr Awdurdod a'r Heddlu mewn sefyllfa ddelfrydol i fyw o fewn eu gallu gan y bydd yr adnoddau sydd ar gael i'w defnyddio yn cael eu lleihau dros y pedair blynedd nesaf. Byddaf yn parhau i weithio gyda'r Arolygiaeth, ynghyd ag arolygwyr ac archwilwyr eraill, i nodi cyfleoedd posibl i gydweithio ar waith archwilio perfformiad yn 2011-12.

**31.** Fel rhan o'n trefniadau cydweithio, rydym wrthi'n cynnal adolygiad gydag Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd i weithredu'r cynlluniau i ateb her ariannol y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod yr

